Anghrediniaeth, gad fi'n llonydd

Caneuon Ffydd: Rhif 729

Anghrediniaeth, gad fi'n llonydd,
onid e mi godaf lef
o'r dyfnderoedd, lle 'rwy'n gorwedd,
i fyny'n lân i ganol nef;
Brawd sydd yno'n eiriol drosof,
nid wy'n angof nos na dydd,
Brawd a dyr fy holl gadwynau,
Brawd a ddaw â'r caeth yn rhydd.

'Chydig ffydd, ble 'rwyt ti'n llechu?
Cymer galon, gwna dy ran;
obaith egwan, ble 'rwyt tithau?
Tyn dy gledd o blaid y gwan:
anghrediniaeth, ffo o'r llwybyr,
nid rhaid imi frwydro'n hir;
er mai eiddil yw fy enw
eto i gyd 'rwy'n ennill tir.

DAFYDD WILLIAM 1721?–94

MYFYRDOD

Byddwn, rwy'n siŵr, yn meddwl am lawer o'n hemynwyr a'r tadau gynt fel cewri'r ffydd, ac nid oes drwg yn eu dyrchafu nhw yn ein golygon cyn belled â'n bod ni'n cofio mai pobl fel chi a fi oedden nhw hefyd. Meddyliwn wedyn am arwyr y Beibl, pobl fel Moses a Dafydd ac Elias, ac rydym yn meddwl am bobl oedd yn iawn yn eu perthynas â Duw ac y cyflawnwyd pethau mawr trwyddyn nhw. Ond mae'n rhaid inni roi pinsh bach i'n hunain hefyd a'n hatgoffa'n hunain mai pobl a chanddynt wendidau, amheuon a ffaeleddau oedden nhw, ac nad ydy'r Beibl yn gwneud dim i guddio'r ffaith honno.

Sôn am weddi mae Dafydd William yma yn ei bennill cyntaf, a'i fod yn ei chael hi'n anodd credu'r addewidion mae Duw

wedi eu rhoi iddo ac yn anobeithio yn wyneb y ffaith nad yw'n gweld ei weddïau'n cael eu hateb. O'r herwydd, mae'n gorwedd mewn dyfnderoedd ac yn isel ei ysbryd. Wrth sôn am weddi, mae Iago'n ein hatgoffa am un a weddïodd ac a gafodd ganlyniadau: 'Yr oedd Elias yn ddyn o'r un anian â ninnau, ac fe weddïodd ef yn daer am iddi beidio â glawio; ac ni lawiodd ar y ddaear am dair blynedd a chwe mis' (Iago 5:17). Ond wrth ein hannog i weddïo'n daer, mae Iago'n ein hatgoffa mai dyn yr un fath â chi a fi oedd Elias, dim byd yn arbennig ynddo, dim ond ei ufudd-dod i Dduw. Cofiwn mor isel y teimlodd ef hefyd – hyd at farw pan glywodd fod Jesebel am ei ladd, a hynny ar ôl ei fuddugoliaeth fawr ar fynydd Carmel pryd y gwelwyd amlygu gallu Duw Israel a difa proffwydi Baal (1 Bren. 18). Bu Duw yn drugarog wrtho, yn gadael iddo orffwys a chael ei atgyfnerthu cyn siarad yn annwyl efo fo mewn 'llef ddistaw fain' (BWM), a'i atgoffa yng nghanol ei ddigalondid bod saith mil yn Israel heb blygu glin i Baal a bod ganddo waith i Elias i'w gyflawni eto (1 Bren.19). Dydy Duw ddim yn troi ei gefn ar y proffwyd, am ei fod yn fwy amyneddgar a goddefgar na neb arall. Mae'n ein deall yn llwyr, ac yn deall ein hamheuon a'n gwendidau hefyd. Diolch mae Dafydd William am y 'Brawd sydd yno'n eiriol drosof', yn ein deall yn llwyr am ei fod wedi gwisgo natur dyn ac yn abl i gydymdeimlo'n llwyr â ni yn Iesu Grist.

Fel y dengys llawer iawn o'r Salmau, y rhai a alwn ni'n Salmau cwynfanus, does dim drwg mewn lleisio'n hamheuon a'n cwynion wrth Dduw. Yn wir, dyna'r unig ffordd effeithiol o ddelio â nhw, sef cyfaddef yn onest wrth Dduw ein bod ni mewn dryswch ac amheuaeth. 'Am ba hyd, Arglwydd, yr anghofi fi'n llwyr? Am ba hyd y cuddi dy wyneb oddi wrthyf?' (Salm 13:1) ydy cwyn y Salmydd yma, ond chaiff Duw mo'i frifo gan ein cwynion; y mae'n fwy na hynny ac yn gallu cymryd beth bynnag a daflwn ni tuag ato!

GWEDDI

O Dad, rwy'n diolch, pan ydw i mewn dryswch ac amheuaeth yn syrthio i lawr i iselder, fy mod i bryd hynny yn gallu syrthio ar fy ngliniau; a phryd hynny yn cael gwrandawiad i'm hamheuon a'm cwynion ac yn derbyn nerth a chymorth i ennill tir arnyn nhw. Yn enw'r Brawd sy'n eiriol. Amen.